

YN AIL hanner y XIX ganrif fe ildiodd tref Biwmares ei blaenoriaeth fel prif ganolfan weinyddol Ynys Môn i Llangefni. Sefydlwyd y wasg gyntaf yn Llanegfni tua 1874 ac erbyn hyn y mae'r dref yn ganolbwynt y wasg argraffu ym Môn gyda dwy wasg ffyniannus yn cyflogi rhyngddynt un ar ddeg o weithwyr.

Yn Y **Clorianydd** 13 Awst, 1941 ysgrifenna J R Williams, Pen-lan, Llangefni fel hyn: "Cofiaf am Evans y clochyd yn argraffu dipyn yma (sef Llangefni) ac yn rhwymwr llyfrau. Trigai yn y Sgwâr ac yna yn Heol y Bont, gyferbyn â Siop y Bont..."


William R Evans (ganed tua 1823), brodor o Landdoged, Sir Ddinbych oedd y gŵr hwn a ymsefydlai yn y dref cyn 1861 yn Rhwymwr Llyfrau. O droi i Gyfrifiad 1871 gwelir ei fod yn byw yn Heol-y-bont gyda'i wraig Diana (g.1831) a'u merch Catherine, chwech oed. Disgrifir ef fel 'Bookbinder and Parish Clerk'. Ni welais undim i gadarnhau fod y rhwymwr llyfrau yn 'argraffu dipyn'.

Y mae gennym gwbl sicrwydd fod Owen Pritchard (1820-82), brodor o blwyf Tregaeon, wedi dechrau argraffu yn Llangefni cyn 1875 oherwydd gwelais un enghraifft o gynnyrch ei wasg, sef **Aberth Crist. Pregeth y Parch William Roberts** (Llangefni 1875) tt.i-viii; 1-36.

Dengys Cyfrifiadau 1861 a 1871 fod Owen Pritchard a'i wraig Margaret yn amaethu Tyn-Llan, Tregaeon gyda chymorth nifer o weision. Ddeng mlynedd yn ddiweddarach rhestrir ef fel argraffydd yn byw gyda'i wraig a morwyn yn Ffordd Glanhwfa, Llangefni. Yr oedd wedi gosod ei wasg rywdro cyn 1875 yn llofft Cross Keys, Stryd-y-bont pan oedd dros hanner cant oed. Bu O Pritchard yn oruchwyliwr stad Tregaeon a cheir nifer o lythyrau Saesneg a ysgrifennodd rhwng Ionawr a Rhagfyr 1867. (Gw. Papurau Roger Lloyd, Coleg Prifysgol Gogledd Cymru rhif 227).

Y mae'n anodd deall pam fod O Pritchard wedi rhoi heibio amaethu i sefydlu gwasg

DAFYDD WYN WILIAM ar hanes Argraffu Llangefni



Owie Jones yn cysodi ar linotype

argraffu mor ddiweddar yn ei fywyd. Ychydig o flynyddoedd a gafodd fel argraffydd oherwydd bu farw 17 Gorffennaf 1882 a'i gladdu ym mynwent Eglwys blwyf Tregaeon. Gydag ef y dysgodd Edward Williams (g.1859), brodor o Llangefni, ei grefft fel argraffydd.

CYN DIWEDD oes O Pritchard, ymsefydlasai Nixon a Jarvis yn argraffwyr yn 8 Stryd Fawr, Llanegfni (Siop Guest heddiw). Enwir hwy yng Nghyfeiriadur Slaters 1880 fel 'Printers' a chanddynt 'Letterpress' ond chwe blynedd yn ddiweddarach 'Booksellers, stationers and newsagents' oeddynt. Rheolwr y wasg oedd Maurice Price (1863-1936) - gŵr o Dreffynnon. Amlwg na bu llwyddiant ar eu gwasg.

Iddynt hwy neu i O Pritchard, mae'n debyg, y gweithiai Wiliam Jones (g.1841), argraffydd a letyai yn un o dai y Stryd Fawr, Llangefni yn 1881. Dywedir yng Nghyfrifiad y flwyddyn honno ei fod yn ŵr priod ac yn frodor o Fiwmares.

Crybwyllwyd Edward Williams eisoes fel un a ddysgodd ei grefft gydag O Pritchard. Yn 1871 preswyliai gyda'i daid a'i nain: Wiliam Williams y calchwr ac Elen yn y Stryd Fawr. Gwyddys hefyd iddo weithio fel argraffydd yng

Nghaernarfon a Chaer. Ef, meddir, oedd y sawl a ddechreuodd argraffu'r **Clorianydd** yn hen dafarn y Vaults Bach ar bont Llangefni. Ymddangosodd y rhifyn cyntaf ar 13 Awst 1891.

Ar naw rhifyn cyntaf y papur wythnosol fe nodir mai J S Parry oedd y rheolwr ac ar rifynnau 10-88 hysbysir ni mai John Hughes, Fron-deg oedd yr argraffydd. Gwerthwyd y papur i gwmi'r **North Wales Chronicle** a diddorol yw darllen yn rhifyn 89 (20 Ebrill 1893) fod y papur yn cael ei argraffu ym Mangor ac hefyd yn 'Swyddfa y **Clorianydd**, Bridge-street, Llangefni, ym mhlwyf Llangefni... gan J Abraham Williams'. Dimai oedd pris y papur yn y cyfnod hwn.

NI WELAIS dystiolaeth fod y wasg ar y Bont wedi parhau ar ôl gwerthu'r **Clorianydd** yn 1893 ac ymddengys fod bwlch yn nhraddodiad y wasg argraffu yn y dref rhwng y flwyddyn honno ac ymsefydliad W O Jones (1877-1949) yno yn 1904. Brodor o Llannerch-y-medd oedd ef a mab i Owen Jones, saer maen ac Elen o Wylfa Villa.

Dysgasai ei grefft gyda Jane ac Elizabeth Jones ym mhentref ei febyd a phan oedd yn 26 oed fe brynodd hen stablau Richard Jones yn Llangefni a gosod gwasg argraffu ynddynt. Llwyddodd yn raddol ac erbyn 1931 yr oedd ganddo bedwar o ddynion yn gweithio iddo, sef Owen Davies (1892-1960) brodor o Flaenau Ffestiniog a fu'n gweithio gyda gwasg Y **Rhedegydd**, Llew Charlton o Gaergybi, Evan Hugh Jones (1892-1939) a ddaeth o Lanrwst ac Owie Jones (g.1913), nai W O Jones ac fel yntau yn frodor o Llannerch-y-medd.

Aeth un arall o weithwyr cynnar y wasg i America a sefydlu gwasg yno oedd yn

argraffu papur newydd.

Dilynwyd W O Jones gan ei fab Hefin (g.1918), gŵr sydd bellach wedi ymdeol. Aeth i Ysgol Fusnes am flwyddyn i ddysgu teipio a gwaith swyddfa a threuliodd ychydig wythnosau yn 1938 yn Ysgol Monotype, Llundain.

Er tarfu ar ei yrfa gan y Rhyfel fe ddychwelodd at grefft ei dad a heddiw profa'r hyfrydwch o weld ei ddau fab yn ei ddilyn yn y busnes, sef William Martin (g.1949) ac Edward Bryan (g.1950).

DIDDOROL yw sylwi ar yrfa Owie Jones un o weithwyr W O Jones. Pan ymadawodd â'r ysgol yn Llannerch-y-medd yr oedd heb waith am bum mis cyn cael ei gyflogi gan ei ewythr yn Llangefni. Ar y dechrau bu raid i'r bachgen ifanc gyflawni pob math o swyddi, swyddi arferol gwasg argraffu. Yn 1937 dilynodd yntau, fel ei gefnder, gwrsg deng wythnos yn llwyddiannus yn Ysgol Monotype, Fetter Lane, Llundain a dychwelyd i weithio at ei ewythr.

Yna yn ystod y cyfnod 1938-40 aeth i weithio i Gwmi Wyman & Sons, Fakenham, Swydd Norfolk ac ennill profiad yno. Derbyniai gyflog wythnosol o £3.8s.6c. Yno y priododd. Yn fuan wedi marw Evan Hugh Jones, un o weision ei ewythr, fe gynigiwyd ei swydd i Owie Jones ac fe'i derbyniodd. Fodd bynnag, yn fuan wedyn, yr oedd yn y Rhyfel.

Ar derfyn yr heldrin fe ddychwelodd at ei ewythr ac yn fuan wedi marw hwnnw yn Ebrill 1949, sef yn 1951, fe benderfynodd sefydlu ei wasg ei hun mewn adeilad yng nghefn 'Trefollwyn', tŷ mewn rhestai yn Ffordd Glanhwfa. Prynodd wasg ym Mhorthmadog. Yn 1960 fe brynodd Cross Keys, lle bu O Pritchard yn argraffu gynt, cymhwysio rhan o'r adeilad a symud ei wasg yno.

Ugain mlynedd yn ddiweddarach fe symudodd ei wasg i'r adeilad unllawr presennol yn Stryd-y-bont nid nepell oddi wrth Cross Keys a gerllaw'r Bont lle buwyd yn argraffu'r **Clorianydd**.

Deil Owie Jones i ddilyn ei grefft ac fe'i cynorthwyr gan ei fab David (g.1945), ei ferch-yng-nghyfraith a dau weithiwr ifanc. Da gweld y ddwy wasg yn Llangefni yn buddsoddi mewn peiriannau newydd a modern.

Gellir olrhain y ddwy wasg i Llannerch-y-medd a pherthynant felly i draddodiad sy'n estyn yn ôl i 1814 pryd y dechreuodd Enoch Jones argraffu yn y Llan, sef 172 o flynyddoedd yn ôl.

(Diolchaf i'm cyfaill Eryl Wyn Rowlands am ei gymorth caredig wrth lunio hyn o ysgrif.)

DAVID HARBOURNE

- Llyfrau -

44 Bishops Walk, Llandaf, Caerdydd. CF5 2HE.

Stoc enfawr o lyfrau Cymreig ar bron bob pwnc sy'n ymwneud â bywyd y Cymry a'r Celtiaid. Teithiaf Gymru a'r Gororau yn gyson i brynu a gwerthu yn y meysydd hyn. Cynigir gwasanaeth llyfrau trwy'r post gartref a thramor hefyd.

Croesewir unrhyw ymholiad ynglŷn â phrynu a gwerthu llyfrau Cymraeg a Chymreig.

Rhif Ffôn: (0222) 561154.